John Wyclif *c.*1330–1384

Seren fore'r Diwygiad Protestannaidd

Ychydig iawn a wyddom am ddyddiau cynnar John Wyclif ar wahân i'r ffaith iddo gael ei eni yng ngogledd Swydd Efrog. Roedd ei dad yn arglwydd y faenor yn Wyclif. Efallai iddo fynd i Goleg Merton yn Rhydychen ym 1345, ac o 1360 hyd 1362 ef oedd Meistr Coleg Balliol. Treuliodd naw mlynedd yn astudio ar gyfer ei ddoethuriaeth a graddiodd ym 1372. Disgleiriodd yn y coleg yn enwedig mewn athroniaeth ac nid oedd unrhyw syndod pan aeth i weithio i'r brenin ym 1366 o dan nawdd Dug Lancaster, Siôn o Gawnt.

Datblygodd athrawiaeth ar arglwyddiaeth a gythruddai'r eglwys. Awgrymai fod awdurdod y brenin yn cael ei roi gan Dduw ac felly fod ganddo awdurdod dros yr offeiriadaeth. Gan fod arglwyddiaethu yn seiliedig ar ras, yna nid oes rhaid ufuddhau i babau pechadurus, a dyletswydd y brenin yw diwygio'r eglwys.

Defnyddiodd Wyclif y ddamcaniaeth hon i ymosod ar lygredd yn yr Eglwys ac i lyffetheirio awdurdod y Pab. Condemniwyd ef gan yr Eglwys a galwyd ef gerbron cyngor o esgobion yn eglwys Sant Paul ym 1377 i ateb cyhuddiadau oedd yn ei erbyn. Y flwyddyn ddilynol aeth pethau o ddrwg i waeth pan ymosododd ar athrawiaeth traws-sylweddiad yr Eglwys. Credai fod Crist yn ei bresenoli ei hun yn ysbrydol yn yr offeren ond nad oedd y bara a'r gwin yn troi yn wir gorff a gwaed yr Arglwydd. Derbynnid Crist felly trwy ffydd heb orfod dibynnu ar offeiriad. Sylfaenai Wyclif ei syniadaeth ar awdurdod llwyr y Beibl, cyfraith Duw, ac yr oedd dysgeidiaeth yr Eglwys yn eilradd. Dadleuai hefyd y dylid cyfieithu'r Beibl i amrywiol ieithoedd fel bod pob person yn cael cyfle i'w astudio.

Oherwydd ei safbwyntiau fe'i gorfodwyd i adael Prifysgol Rhydychen ym 1381 ac fe ymddeolodd i Lutterworth lle y cafodd fywoliaeth oherwydd iddo gefnogi'r goron yn erbyn y Pab. Er bod ei iechyd erbyn hyn yn fregus aeth ati gyda Nicholas o Henffordd i ddechrau cyfieithu'r

Beibl, am y tro cyntaf, o Ladin i Saesneg. Rhoddodd drefn hefyd ar rai o'i ddilynwyr a elwid yn Lolardiaid (Lollards). Pregethwyr teithiol oedd y rhain yn mynd o farchnad i ffair yn cyhoeddi syniadau a dosbarthu tractiau Wyclif. Mewn rhai ardaloedd buont yn llwyddiannus gan sefydlu celloedd bychain o gredinwyr yng nghanolbarth Lloegr. Bu ei waith ysgrifenedig yn ddylanwadol iawn ar y cyfandir. Bu farw ym mis Rhagfyr 1384.